**Gwybodaeth i gleifion a rhieni**

# Ptosis — Atebion i ambell gwestiwn cyffredin

**Yr Adran Orthoptig**

---

## Beth yw ptosis?

Ptosis (sy'n cael ei ynganu'n to-sis; lluosog: ptoses) yw'r term meddygol am y cyflwr pan fo'r amrant uchaf yn gwyro. Gall ptosis fod yn gyflawn, lle mae'n effeithio ar y llygad cyfan, neu'n rhannol, lle mae'n effeithio ar ran o'r llygad.

Weithiau mae'n anodd adnabod ptoses rhannol ac yn aml maent yn dod yn fwy amlwg pan fydd y claf wedi blino. Mewn plant ifanc, mae'n arbennig o bwysig asesu a yw'r amrannau yr effeithir arnynt yn gorchuddio cannwyll y llygad.

## Beth sy'n achosi ptosis?

Mewn ptosis cynhenid, nid oes achos arall am amrant yn gwyro; mae'n bresennol o'r enedigaeth, ond efallai na sylwir arno ar unwaith.

Mewn oedolion (a lleiafrif bach iawn o blant), gall ptosis fod yn ganlyniad i amryw o anhwylderau neu gall fod cael ei achosi gan gyflwr llygaid arall (ffug-ptosis). Felly, mae asesiad orthoptig yn bwysig er mwyn rhoi diagnosis manylach.

## Beth yw effaith ptosis o ran gweld?

Mewn plant, mae ptosis sy'n gorchuddio cannwyll y llygad atal y llygad yr effeithir arno ddatblygu'n iawn o ran y gallu i weld (amblyopia). Gall hyn fod â goblygiadau gweledol amlwg a hirdymor i'r llygad sy'n gwyro. Felly, mae'n bwysig monitro golwg y plentyn yn ofalus.

Mewn oedolion, mae ptosis yn aml yn digwydd gyda phroblemau llygaid eraill, yn enwedig golwg ddwbl. Gall ptosis dros dro sy'n gorchuddio cannwyll y llygad leddfu symptomau o'r fath.

Weithiau, gall ptosis ysgogi angen am sbectol neu beri i'r person godi ei ên yn gyson.

## Fydd y ptosis yn ei gywiro ei hun?

Mae hyn yn annhebygol mewn plant ond efallai na fydd ptosis ysgafn mor amlwg wrth iddynt fynd yn hŷn, ac efallai na fydd yn effeithio ar ddatblygiad gweledol y plentyn. Gall ptosis sy'n edrych yn wael yn gosmetig, neu ptosis sy'n gorchuddio cannwyll y llygad, awgrymu bod angen llawdriniaeth.

Mewn oedolion, gall y ptosis wella ond mewn rhai achosion nid yw'n ei ddatrys ei hun yn llwyr. Mae gwella'r ptosis yn aml yn dibynnu ar beth yw achos sylfaenol y ptosis. Bydd gofyn am brofion meddygol pellach i gadarnhau hyn.

**Oes angen llawdriniaeth ar y ptosis?**

Chi fydd i benderfynu a ydych am fwrw ymlaen â llawfeddygaeth gywirol, gyda chytundeb yr Offthalmolegydd Oculoplastig. Gall yr Offthalmolegydd Pediatrig a'r Orthoptydd helpu i gynghori wrth wneud y penderfyniad.

Yn gyffredinol, ni argymhellir llawdriniaeth pan fo'r ptosis yn dderbyniol yn gosmetig, pan nad yw'n gorchuddio cannwyll y llygad mewn plant neu pan nad yw'n achosi i'r person fabwysiadu ystum mawr i'r pen.

Bydd yr Offthalmolegydd Oculoplastig yn trafod gyda chi y rheswm/rhesymau dros lawdriniaeth a nod(au) y llawdriniaeth. Byddant hefyd yn trafod y risgiau, fel y gallwch wneud penderfyniad gwybodus.

Mewn pobl hŷn, gellir rheoli ptoses sy'n gysylltiedig ag oedran gyda phropiau ptosis, ond mae angen llawdriniaeth ar y mwyafrif, fodd bynnag.

**Pwy sydd ynghlwm wrth roi diagnosis a thrin ptosis?**

Bydd tîm llygaid yn eich trin chi/eich plentyn, a all gynnwys y bobl ganlynol:

- Mae'r Orthoptydd yn arbenigo mewn diagnosio a rheoli tro yn y llygad a datblygiad gweledol plant. Byddant yn monitro golwg a ptosis eich plentyn yn rheolaidd, ac yn eich cynghori pan fydd angen mewnbwn arbenigol.

- Bydd yr Optegydd/Optometrydd yn rhoi sbectol ar bresgripsiwn os bydd angen, ac yn eich cynghori ar unrhyw newid sydd ei angen.

- Mae'r Offthalmolegydd Pediatrig yn feddyg llygaid sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol ac iechyd llygaid eich plentyn. Gallant roi sbectol ar bresgripsiwn a'ch cyfeirio at yr Offthalmolegydd Oculoplastig.

- Yr Offthalmolegydd Oculoplastig yw'r meddyg llygaid sy'n arbenigo mewn cywiro ptosis yn llawfeddygol. Gall rhai cleifion gael eu hatgyfeirio atynt gan yr Offthalmolegydd Orthoptydd neu Bediatrig.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**